



Deddf Tai 2004, Adran 56

HYSBYSIAD CYHOEDDUS O DDYNODI ARDAL AR GYFER TRWYDDEDAU TAI AMLBRESWYL YCHWANEGOL

Hysbysir trwy hyn bod Dinas a Sir Abertawe wedi cadarnhau dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol o ran tai amlbreswyl yn Wardiau Etholiadol Castell ac Uplands. Gelwir y cynllun hwn yn Gynllun Trwyddedu Tai Amlbreswyl Ychwanegol Abertawe 2016 ('y Cynllun'). Bydd cadarnhau'r dynodi yn unol ag Adran 56-60 Deddf Tai 2004 a Rheoliad 9 Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlbreswyl a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Penderfynwyd ar y dynodi yng nghyfarfod Cyngor Dinas a Sir Abertawe ar 26 Tachwedd 2015. Mae Cymeradwyaeth Gyffredinol 2007 Deddf Tai 2004 (Trwyddedu Tai Amlbreswyl Ychwanegol) (Cymru), a ddaeth i rym ar 13 Mawrth 2007 yn berthnasol i'r dynodi hwn.

Bydd y cynllun yn dod i rym o 9 Mawrth 2016 ac, oni bai y'i diddymir ymlaen llaw, bydd yn dod i ben ar 9 Mawrth 2021. Mae'r Cynllun yn berthnasol i'r holl dai amlbreswyl (HMO) yn Wardiau Etholiadol y Castell ac Uplands ar wahân i'r rhai a eithrir gan adrannau perthnasol Deddf Tai 2004.

Dylai unrhyw landlord, person sy'n rheoli neu denant yn wardiau Etholiadol Castell neu Uplands, gael cyngor gan Dîm HMO Cyfarwyddiaeth Lleoedd Dinas a Sir Abertawe i weld a yw eu heiddio'n cael ei effeithio gan ddynodi'r Cynllun hwn.

Rhaid i berson sy'n rheoli neu â gofal o HMO yn yr ardal ddynodedig wneud cais i Dinas a Sir Abertawe am drwydded.

Mae methu â gwneud cais am drwydded yn drosedd o dan Is-adran 72(1) Deddf Tai 2004 a gall person dderbyn hyd at £20,000 o ddirwy.

Gellir hefyd wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl i wneud Gorchymyn Ad-dalu Rhent lle mae gofyn ad-dalu hyd at 12 mis o rent a gasglwyd yn ystod y cyfnod nad oedd gan yr eiddo drwydded.

Rhaid i'r cais i drwyddedu HMO fod mewn fformat rhagnodedig, gan gynnwys manylion penodol ac mae'n rhaid cynnwys y ffi angenrheidiol. I wneud cais am ffurflen gais, cysylltwch â'r Tîm HMO, Cyfarwyddiaeth Lleoedd, Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN neu ffoniwch (01792) 635600, neu e-bostiwch evh@swansea.gov.uk. Gellir hefyd lawrlwytho ffurflen gais yn www.abertawe.gov.uk/hmos

Mae copi i'r Cynllun ar gael ar wefan Dinas a Sir Abertawe yn www.abertawe.gov.uk/hmos neu drwy gysylltu ag Cyfarwyddiaeth Lleoedd yn y manylion uchod.